YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

Plant a'r Cymun Bendigaid

Canllawiau ac Adnoddau ar Gyfer Plwyfi



Paratowyd gan Bwyllgor Plant
Cyngor Cenhadaeth a Gweinidogaeth
Yr Eglwys yng Nghymru

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru
Ailargraffwyd Gorffennaf 2009 Cyfeirnod 1043 (heb y darluniau gwreiddiol)
Cynhyrchwyd gyntaf yn 2002

CYNNWYS

Rhagair 3

1. Canllawiau ynglŷn â derbyn plant sydd wedi'u bedyddio i'r Cymun Bendigaid 5

2. Beth oedd rôl Bedydd Esgob? 6

3. Y Traddodiad Anglicanaidd 10

4. A ddylid gostwng oed derbyn plant i'r Cymun Bendigaid? 13

5. Conffyrmasiwn yn y dyfodol? 17

6. Litwrgïau ar gyfer derbyn plant sydd wedi'u bedyddio i'r Cymun Bendigaid 22

RHAGAIR

Nid yw'r Eglwys bob amser wedi dirnad y ffordd orau y dylai ufuddhau i orchymyn Crist 'gadewch i blant bychain ddod ataf fi' ac yn araf bach y mae'r Eglwys Anglicanaidd mewn gwahanol wledydd wedi mynd ati i agor y drafodaeth ar y cwestiwn o dderbyn plant bedyddiedig i gyfranogi o'r Cymun Bendigaid. Mae'r plwyfi hynny sydd wedi datblygu'r arfer hwn gan ddilyn y camau hyn, fodd bynnag, wedi mynegi yn gyffredinol, wir frwdfrydedd o'r effaith a brofwyd ym mywyd yr Eglwys, a gobaith Esgobion Cymru yw y bydd yna gynnydd yn y nifer o fentrau cyffelyb. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod adnoddau addas yn cael eu gwneud ar eu cyfer a'u bod yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae'n bleser gennyg gymeradwyo yr hyn sy'n dilyn fel cymorth i ddarparu ac ystyried.

+Rowan Cambrensis

1. CANLLAWIAU YNGLŶN Â DERBYN PLANT SYDD WEDI'U BEDYDDIO I'R CYMUN BENDIGAID

1. Dymuna Mainc yr Esgobion awdurdodi plwyfi i dderbyn plant bedyddiedig i'r Cymun Bendigaid, ar yr amod bod y cynnig wedi cael cefnogaeth briodol yr offeiriaid, y Cyngor Plwyfol Eglwysig a'r plwyfolion.

2. Dylai offeiriad y plwyf, y Cyngor Plwyfol Eglwysig a'r rhai sydd yn ymwneud â phlant o fewn yr offeiriadaeth gymryd rhan flaenllaw wrth gyflwyno a gweithredu'r ymarfer newydd hwn yn y plwyf.

3. Cyn cyflwyno cynllun mewn plwyf, byddai'n ddymunol pe bai cymaint o'r plwyfolion ag sydd bosibl yn deall y rhesymau am yr ymarfer newydd. Gallai adnoddau tebyg i'r rhai a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Plant Yr Eglwys yng Nghymru fod yn ddefnyddiol.

4. Dylid ystyried derbyn plant i'r Cymun Bendigaid fel rhan o raglen gynhwysfawr y plwyf o ran meithrin yn y ffydd Gristnogol. Dylid paratoi plant a rhieni/noddwyr am gyfnod addas cyn hynny. Gallai'r rhaglen *Bendigedig fyddo Duw am byth*, a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Plant Taleithiol, fod o ddefnydd.

5. Dylai'r Plwyf sicrhau bod y plant a dderbynnir i'r Cymun Bendigaid yn cael cefnogaeth weithredol rhieni/noddwyr ac aelodau eraill y gynulleidfa.

6. Disgwylir y bydd babanod a fedyddir yn ogystal â phlant a dderbynnir i'r Cymun Bendigaid yn dymuno cael eu conffyrmio pan fydd yr amser yn briodol.

7. Pan fo plentyn sy'n gymunwr yn symud tŷ, dylid hysbysu offeiriad y plwyf newydd ynglŷn â statws cymunol y plentyn. Dylid derbyn y plentyn fel cymunwr yn y plwyf newydd ac ni ddylid tynnu statws cymunwr yn ôl.

8. Fel arfer, dylid derbyn plant i'r Cymun Bendigaid am y tro cyntaf mewn dathliad ar y Sul. Gellir arfer ffurf syml ar ddefod derbyn fel yr un a baratowyd gan Y Pwyllgor Plant Taleithiol. Dylai'r pwyslais fod ar y dathlu yn hytrach na'r holi.

9. Dylid cadw cofnod o enwau'r rhai a dderbyniwyd i'r Cymun Bendigaid gyda chofrestrau'r plwyf.

10. Dylai'r Eglwys yng Nghymru goladu a chyhoeddi rhifau'r plant a dderbyniwyd i'r Cymun Bendigaid yn yr un ffordd ag y cyhoeddir rhifau'r rhai sy'n cael eu bedyddio a'u conffyrmio.

11. Pan benodir offeiriaid i blwyfi a awdurdodwyd i dderbyn plant i'r Cymun Bendigaid, dylid ystyried yn llawn yr ymarfer a weithredir.

2. BETH OEDD RÔL BEDYDD ESGOB?

Beth oedd "Bedydd Esgob" (yr ymarfer amrywiol hwnnw o weddïo dros y sawl a fedyddiwyd drwy eneinio a/neu arddodi dwylo fel arwydd o rym parhaol yr Ysbryd Glân dros y bywyd newydd ddechreuwyd yn nyfroedd bedydd)? Ar hyd yr oesau, sut y datblygodd wrth iddo ymateb i anghenion cyfoes?

Y farn boblogaidd am Fedydd Esgob yw mai defod o ymrwymiad yw hi sy'n datguddio'r Ysbryd Glân, ac yn "gwaredu'r" sawl sydd newydd ei fedyddio. Yn wir, dyma'r "stamp esgobol" ar aelodaeth Eglwysig. Fodd bynnag, brith yw hanes y ddefod hon a ddefnyddir drwy'r Cymundeb Anglicanaidd. Mae'n wahanol i'r Bedydd a'r Cymun Bendigaid am nas sefydlwyd gan Dduw, a phrin a dadleuol yw'r dystiolaeth ysgrythurol.

Y mae Bedydd Esgob wedi tarddu o'r eneiniad a ddigwyddai wedi'r bedydd a /neu'r arddodiad dwylo yn y ddefod derbyn. Gofynnodd Iesu ar i'w ddisgyblion fedyddio yn enw'r Drindod. (Math.28.19). Er bod awduron y Testament Newydd yn dweud llawer am arwyddocâd bedydd, ychydig o fanylion litwrgïaidd a ddarperir ganddynt. Yn Actau'r Apostolion ceir naw cyfeiriad at fedydd ond mewn dau gyfeiriad yn unig y mae sôn am arddodiad dwylo wedi'r bedydd - Samariaid (8.12-17) a'r disgyblion yn Effesus (19.1-6). Cyfeiriwyd at yr Epistol at yr Hebreaid droeon fel tystiolaeth ar gyfer Bedydd Esgob. Fodd bynnag, y farn gyffredinol yw mai trwy fedydd dwr y derbynnid Cristnogion cynnar, a gallai defodau ychwanegol fel arddodiad dwylo ddigwydd mewn rhai eglwysi er na ellir dweud mai dyna'r norm.

Erbyn yr ail ganrif, roedd defod bedydd wedi datblygu ac yn ôl yr hyn a ysgrifennwyd gan y Didache a Justin Martyr (160 O.C.), byddai cyfnod o ympryd, gweddi a hyfforddiant yn dod o'i flaen. Trochid yr ymgeisydd mewn dŵr oer rhedegog, neu fe dywelltid dŵr arno dair gwaith yn enw'r Drindod. Erbyn 200 O.C., ychwanegasid defodau fel eneiniad ac arddodiad dwylo at ddefod y bedydd.

Erbyn y bedwaredd ganrif, roedd rhyw gyfrinachedd ynglŷn â'r ddefod derbyn - roedd manylion y seremoni, y Cymun Bendigaid, y Credo a Gweddi'r Arglwydd yn cael eu cadw'n gyfrinach (disciplina arcani). Byddai derbyn yn digwydd yn ystod gwylnos y Pasg ar ôl catecwmenawd o dair blynedd. Yn y cyfamser, roedd nifer o ddefodau ychwanegol wedi tyfu o gwmpas defod y bedydd gan gynnwys eneinio, nodi arwydd y Grog a golchi traed yr ymgeisydd gan yr Esgob. Gwisgid yr un oedd i'w dderbyn yn y modd hwn mewn gwisg wen (fel arwydd o gyfiawnder), ac fe'i harweinid i mewn i'r Cymun yn cario cannwyll wedi'i goleuo, i

dderbyn y cymun cyntaf. Mewn rhai eglwysi, rhoddid iddynt ddiod o laeth a mêl fel symbol o fynediad i Wlad yr Addewid.

Datblygodd "datguddiad yr ysbryd" mewn sawl ffurf - arddodiad dwylo a bendith (Tertullian m. 225); eneiniad ac arddodiad dwylo, arwydd y Grog, a chusan heddwch (Hippolytus m. 236) neu arddodiad, eneiniad ac arwydd y Grog (Cyprian m. 258). Credai Ambrose (m.397) fod saith dawn yr Ysbryd Glân yn cael eu datguddio drwy'r "sêl" ysbrydol hon. Yn amlwg, dyma wreiddiau'r hyn ddatblygodd yn ddefod Bedydd Esgob.

Yn yr Eglwys Ddwyreiniol, hyd heddiw bydd plant yn cael eu bedyddio, eu heneinio a'u cymuno gan yr offeiriad, gan ddefnyddio ennaint bedydd sydd wedi'i fendithio gan Esgob. Fodd bynnag, yn yr Eglwys Orllewinol, dylanwadwyd ar batrwm y ddefod derbyn gan sawl ffactor. Yn gyntaf, drwy ei ddysgeidiaeth ar y pechod gwreiddiol, hyrwyddodd Augustine (m. 430) yr arfer o fedyddio plant o fewn wythnos o'u genedigaeth - yn aml gan y fydwraig neu gan aelod o'r teulu. O ganlyniad, gohirid conffyrmasiwn hyd nes y byddai'r Esgob ar gael. Yn gyffredinol, ychydig o bobl a ystyriai'r "ddefod ychwanegol' hon yn fodd i gwblhau'r bedydd ac nid ystyrid ychwaith ei bod yn angenrheidiol i waredigaeth. Gydag amser, rhoddid Bedydd Esgob yn unig pan fyddai Esgob yn y cyffiniau. Digwyddai hynny'n aml oddi ar gefn ceffyl neu o gerbyd i bobl a safai ymhell yn y caeau, yn hytrach nag arddodi dwylo ar bob unigolyn.

Nesaf, ceisiodd Archesgob Peckham (1281) reoleiddio'r sefyllfa hon trwy wneud bedydd esgob yn orfodol cyn cael y cymun. Methodd y ddeddfwriaeth hon fodd bynnag, a pharhaodd y rheiny oedd wedi'u bedyddio ond heb eu conffyrmio i dderbyn y Cymun Bendigaid drwy'r Oesoedd Canol hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg pan waharddwyd yr arfer gan Gyngor Trent (1547). Felly, etifeddodd Diwygwyr yr unfed ganrif ar bymtheg ddefod derbyn a oedd, drwy ymarfer, wedi ymrannu'n dair rhan – Bedydd a Bedydd Esgob ac yna'r Cymun.

Yn ystod y Diwygiad, mabwysiadwyd agwedd lymach o lawer ac roedd rhyw ddealltwriaeth yn ofynnol cyn derbyn cymundeb. O ganlyniad, ym 1549, creodd Cranmer ddefod ar wahân ar gyfer Bedydd Esgob lle disgwylid i'r ymgeisydd adrodd y Credo, y Deg Gorchymyn a Gweddi'r Arglwydd. Gweinyddid y ddefod i blant a fyddai wedi cyrraedd "yr oed hwnnw . . . y byddent mewn perygl o ddechrau pechu". Rhoddai Bedydd Esgob 'nerth ac amddiffynfa yn erbyn pob temtasiwn i bechu ac ymosodiadau'r byd a'r diafol.' Dywedai'r rhuddell olaf, 'Ac ni dderbynnir neb i'r Cymun Bendigaid hyd nes y bo wedi'i gonffyrmio'.[1]

Dechreuai'r gwasanaeth drwy holi'r Catecism. Gofynnai'r Esgob yn ei weddi a ragflaenai'r conffyrmasiwn ar i Dduw 'Anfon i lawr o'r nef', saith dawn yr Ysbryd Glân: roedd arwydd y Grog (heb ennaint) yn gynwysiedig o hyd ac adroddid y geiriau 'Nodaf di ag arwydd y Grog . . . a gosodaf fy nwylaw arnat,' gyda'r arddodiad dwylo. Nid oedd i hyn arwyddocâd mewnol serch hynny. Cyfeiriai'r weddi ar ôl y conffyrmasiwn at 'esiampl yr Apostol' gyda'r arddodiad dwylo, a thrwy hynny ddiddymu'r cyswllt â rhodd fewnol yr Ysbryd Glân. [2]

Newidiodd adolygiad 1552 'Anfon i lawr' i 'Nertha' a diflannodd pob seremoni arall gyda'r arddodiad dwylo; i gydfynd â hyn caed bellach weddi ansagrafennaidd am dwf ysbrydol - 'Amddiffyn Arglwydd dy blentyn

â'th ras nefol, fel y byddo iddo/iddi barhau yn eiddot Ti byth, a beunydd gynyddu yn dy Ysbryd Glân . . .' Yn y modd hwn, byddai llai o bwyslais ar roddi'r Ysbryd Glân.[3]

Yn adolygiad 1662, argraffwyd y Catecism a'r Conffyrmasiwn ar wahân i'r Bedydd Esgob a chyfarwyddwyd yr Offeiriad i gateceiddio'r ymgeisydd cyn ei gyflwyno i'r Esgob. Felly y disodlwyd holi'r Catecism a daeth adnewyddu'r addewidion bedydd yn ei le. Yn arwyddocaol, ychwanegwyd y geiriau 'neu bydd barod ac yn awyddus i dderbyn Conffyrmasiwn' at y rhuddell olaf.[4] (Roedd yr olaf yn adlewyrchu un ar ddeg mlynedd o'r Gymanwlad pan ddechreuodd grwpiau anghydffurfiol godi ac ychydig o fedyddio plant fyddai'n digwydd).

Felly, gosodwyd patrwm derbyn am y tair canrif ddilynol – bedydd plant (fel arfer), yn cael ei ddilyn gan gonffyrmasiwn a chymundeb. Fodd bynnag, esgeuluswyd conffyrmasiwn yn aml neu ei wneud mewn modd difater. Gellid conffyrmio cannoedd gydag un weddi heb arddodi dwylo. Byddai nifer o bobl yn cael eu holi ar y Catecism ac yn derbyn cymun heb eu conffyrmio. Roedd gofyn i ddeiliaid swyddi'r Goron gymuno yn unol ag arfer Eglwys Loegr yn ôl y Ddeddf Prawf Sagrafennaidd (1673) pa un a fyddent wedi'u conffyrmio ai peidio. O ganlyniad, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg lleisiodd amryw o esgobion bryderon, yn eu plith, H. Ryder, C. Sumner, J.B. Sumner a Samuel Wilberforce. Cafwyd wedi hynny well paratoad a chonffyrmasiwn mwy rheolaidd. Bu rhannu esgobaethau, ymneilltuaeth esgobion a datblygiad y rheilffyrdd o gymorth yn hyn o beth. At hyn, effaith Mudiad Rhydychen oedd tynhau disgyblaeth conffyrmasiwn gyda mwy o bwyslais ar sacrament. Daethpwyd i ystyried conffyrmasiwn un ai fel modd i gwblhau'r derbyn (agwedd Mason-Dix) neu fel defod o holi'r Catecism heb y cymun. Arddelid y ddwy safbwynt tra roedd y ddefod yn parhau yr un fath – conffyrmasiwn cyn cymundeb.

Gweithiai'r patrwm hwn yn dda pan oedd bedydd a chonffyrmasiwn wedi'u gwreiddio'n ddwfn 'yng nghrefydd y bobl'. Fodd bynnag, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, tyfodd anghyfartaledd cynyddol rhwng rhifau'r rhai a fedyddiwyd a'r rhai a gonffyrmiwyd. At hyn, roedd defod conffyrmasiwn bron yn golygu 'graddio' o'r Eglwys. O ganlyniad, cyflwynodd Cynhadledd Lambeth (1968) adroddiad a leisiai bryderon ynglŷn â phatrwm traddodiadol derbyn. Trafodwyd y mater drwy'r Cymundeb Anglicanaidd ar sawl lefel, dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

Mae sawl comisiwn dysgeidiaeth a sawl adroddiad wedi dod i'r casgliad bod bedydd dŵr ynddo'i hun yn ddefod derbyn cyflawn ac mewn egwyddor yn rhoi mynediad i blentyn neu oedolyn i'r Cymun. Tra bod gan gonffyrmasiwn/arddodiad dwylo rôl fugeiliol o ran adnewyddu ffydd y bedyddiedig, nid yw bellach yn cael ei ystyried fel mynediad i Gymundeb.

NODIADAU

1 Buchanan C. *Anglican Communion*.
2 Buchanan C. *Anglican Communion*.
3 Buchanan C. *Anglican Communion*.
4 Buchanan C. *Anglican Communion*.
5 The Ely Report (1971), Adroddiad Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru (1971), The Knaresborough Report(1985), The Boston Consultation(1985), The Toronto Statement (1991), Adroddiad i Fainc yr Esgobion, Yr Eglwys yng Nghymru(1993).

LLYFRYDDIAETH

Buchanan C. (1986), *Anglican Confirmation*, Grove Liturgical Studies.

Yr Eglwys yng Nghymru (1971), *Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru Christian Initiation*.

Yr Eglwys yng Nghymru (1993), Adroddiad i Fainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru, *Children and Holy Communion.*

Y Gymdeithasfa Gyffredinol (1985), Adroddiad Bwrdd Addysg y Gymdeithasfa Gyffredinol, gadeiriwyd gan Esgob Knaresborough. *Communion before Confirmation? CIO Publishing.*

Jones, Wainwright and Yarnold (gol.) (1980), *The Study of Liturgy*. SPCK.

Macquarrie J. (1997), *A Guide to the Sacraments.* SCM Press.

McKelvey H. (1993), *Children at the Table*. Church of Ireland CPD.

Paterson R.M.E. (2001), *The Children's Bread: Children and Holy Communion*.

Pearce S. and Murrie D. (1997), *Children and Holy Communion*. National Society/Church House Publishing.

3. DERBYN PLANT I'R CYMUN BENDIGAID – A YW'N GYSON Â'R TRADDODIAD ANGLICANAIDD?

Allwn ni ddadlau bod derbyn plant i'r Cymun Bendigaid cyn conffyrmasiwn yn gyson â thraddodiad ac ymarfer Anglicanaidd, yn arbennig yng nghyd-destun Llyfr Gweddi Cyffredin 1662 ac â thraddodiad yr Eglwys yng Nghymru?

Nid yw hwn yn gwestiwn newydd ac mae wedi'i drafod mewn sawl talaith o'r Cymundeb Anglicanaidd ac mewn sawl synod dros y degawdau diwethaf. Ceir amrywiaeth o lenyddiaeth ar y mater, ac mae llawer o'r hyn a ysgrifennir yma wedi'i ddweud o'r blaen. Yn benodol, dibynnwyd yn helaeth ar yr adroddiadau a'r cyhoeddiadau canlynol wrth baratoi'r papur hwn.

- Isaac, D. (gol.), (1985), *Communion before Confirmation? Adroddiad gan weithgor bwrdd addysg y Gymdeithasfa Gyffredinol ar Ddefod Derbyn yr Eglwys a Chyfranogi o'r Ewcharist a gadeiriwyd gan Esgob Knaresborough*, Llundain (CIO Publishing)
- Buchanan, C. (gol.), (1985), *Nurturing Children in Communion Essays from the Boston Consultation*, Nottingham, Grove Books
- Jones, W.D. (gol.), (1993), *Children and Holy Communion: Adroddiad i Fainc yr Esgobion, yr Eglwys yng Nghymru*, Penarth, Y Bwrdd Cenhadaeth.

Camgymeriad yw ystyried y traddodiad Anglicanaidd fel pe bai wedi dechrau gyda'r diwygiad a'i fod wedi bodoli ohono'i hun oddi ar hynny. Tyfodd o draddodiad yr eglwys orllewinol yn Ewrop, ac mae bob amser wedi byw ochr yn ochr â thraddodiadau cymundebau ac eglwysi eraill. Yn wir, bu dadlau ar sawl achlysur fod y traddodiad Anglicanaidd yn llwybr canol rhwng traddodiadau eraill, boed y rheiny'n ddiwygiedig, yn babyddol neu'n uniongred. Mae'n bwysig felly bod unrhyw drafodaeth am blant a chymun yn cymryd i ystyriaeth draddodiadau Anglicanaidd yn ogystal â chadw golwg ar y safbwynt eciwmenaidd.

Yn Adroddiad Knaresborough mae'r ail bennod yn ymwneud ag ystyried yr ysgrythur, yr Eglwys Fore a datblygiadau diweddarach. Wrth gloi dywed 'gwnaed ymgais yn y bennod hon i gyffwrdd â rhai o'r darnau ysgrythurol pwysicaf a phatristig sy'n berthnasol i'n thema. Mae'n anorfod bod ymgais o'r fath o fewn terfynau mor gyfyng yn esgor ar ganlyniad anfoddhaol. Serch hynny, mae digon wedi'i gynnwys i gyfleu'r argraff o gymhlethdod y defnyddiau yr ydym wedi'u hetifeddu o bum canrif gyntaf Cristnogaeth. Arwain y dystiolaeth feiblaidd yn hawdd iawn at y casgliad bod amrywiaeth eang o ymarfer a dealltwriaeth o fewn yr eglwys yn y ganrif gyntaf, yn arbennig o safbwynt arddodiad dwylo yn y Ddefod Derbyn Eglwysig' (Isaac, 1985; 13). Tynnwyd sylw yn gynt yn y bennod at ddiddymu cymun plant unwaith ac am byth gan Gyngor Trent. 'Nid oedd conffyrmasiwn wedi cael ei ystyried fel amod ar gyfer derbyn Cymun Bendigaid. Mater o ddisgyblaeth wedi'i hanelu at ' esgeulustod dieflig rhieni' a oedd yn hapus i'w plant gael eu bedyddio'n unig oedd rheol Archesgob Peckham yng Nghyngor Lambeth ym 1281 (a wrthodai dderbyn rhai oedd heb eu conffyrmio neu'r rhai oedd heb eu rhwystro rhag cael eu conffyrmio). Erbyn hynny roedd yr eglwys wedi bod yn cymuno plant ac oedolion oedd heb eu conffyrmio ers canrifoedd' (Isaac, 1985; 10). Mewn geiriau eraill, mae'r traddodiad yr

ydym ni, anglicaniaid yr 21ain ganrif wedi'i etifeddu wedi cydnabod dilysrwydd derbyn plant i'r cymun am gyfnod hwy yn ei hanes nag yw wedi gwadu hynny.

Ond beth wnawn ni o etifeddiaeth Anglicanaidd arbennig y diwygiad? Mae Atodiad 4 i Adroddiad Knaresborough (Isaac, 1985; 61-76) yn cynnwys memorandwm hir ar ddehongliad y Diwygwyr o'r berthynas rhwng bedydd, conffyrmasiwn a derbyn i'r Cymun. Seiliwyd y sylwadau hyn ar hynny ac ar drydedd a phedwaredd bennod yr adroddiad (Isaac, 1985; 15-19). 'Dywedodd Cranmer nad trosglwyddo'r Ysbryd oedd swyddogaeth conffyrmasiwn bellach. Yn hytrach, gosodai'r sacrament o roddi'r Ysbryd yn y Bedydd. Serch hynny, ymgorfforodd Cranmer hen reol Archesgob Peckham yn ei ruddell gonffyrmio newydd ' na dderbynnid neb i'r Cymun Bendigaid hyd nes y gallai ddweud y catecism, a chael ei gonffyrmio'. Etifeddodd y diwygwyr y syniad bod peth gallu i ateb drosoch eich hun yn amod angenrheidiol i gael eich derbyn i'r cymun, a rheoleiddiwyd y syniad i ateb eu rhagdybiaethau eu hunain. Yn benodol, ystyrient fod dysgu'r ffydd yn waredigaeth angenrheidiol o'r ofergoeledd oedd yn rhan o'u magwraeth. Roedd yn anorfod eu bod yn rhoi pwyslais mawr ar y gallu i ymateb i'r catecismau. Cadwodd Llyfr Gweddi 1662 bwyslais y Diwygwyr i raddau helaeth, er iddo ddiddymu'r Catecism o ddefod y conffyrmio. Gosododd y Llyfr Gweddi batrwm, ac o ganlyniad, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, deilliodd defnydd bugeiliol dwysach o'r conffyrmasiwn. Daeth mwy a mwy o Anglicaniaid i gredu bod conffyrmasiwn yn amod absoliwt ar gyfer derbyn y cymun. Erbyn yr 1880au, arweiniodd hyn at benderfyniad diwinyddol mai drwy gonffyrmasiwn y caniateid derbyn y cymun' Isaac, 1985: 15-17).

Y cwestiwn godwyd ar ddiwedd trydedd bennod adroddiad Knaresborough yw hwn. 'A glymodd y diwygwyr ni i ryw draddodiad am byth, er gwaethaf y ffaith y gall dealltwriaeth o'r traddodiad hwnnw newid? Ai yn hytrach ddarparu egwyddor diwygio fyddai'n ein hannog i ystyried yn feirniadol yr hyn a etifeddwyd gennym a wnaethant?' (Isaac, 1985; 17). Y mae'r ateb i'r cwestiwn hwn yn allweddol o ran caniatáu derbyn plant i'r cymun ai peidio. Mae'r bennod ddilynol yn mynd ymlaen i ystyried natur ein traddodiad, sut y mae'n 'cynnwys gwirioneddau Crist-nogol sydd yn ddigyfnewid dros amser, ynghyd ag elfennau o ddealltwriaeth sy'n esblygu o oes i oes'. Mae awduron yr adroddiad yn glir eu dealltwriaeth bod Erthygl XX yn dangos bod awdurdod defodau'r Llyfr Gweddi Cyffredin wedi'u seilio'n bennaf ar fater disgyblaeth yn hytrach nag ar ddysgeidiaeth' ac eithrio'r materion sydd yn amlwg â'u gwreiddiau yn yr ysgrythur ac 'y credir ynddynt am eu bod yn angenrheidiol ar gyfer gwaredigaeth' (Isaac,

1985; 19). Dônt i'r casgliad, 'Mae'n glir, o'r ddealltwriaeth hon o natur traddodiad o fewn Eglwys Loegr bod newidiadau mewn materion disgyblaeth yn bosibl ac weithiau'n angenrheidiol' (Isaac, 1985; 19).

Mae traddodiadau'n tyfu ac yn newid. Ym 1971 gofynnwyd i gomisiwn dysgeidiaeth Yr Eglwys yng Nghymru gan yr Archesgob Glyn Simon i archwilio i holl ddiwinyddiaeth bedydd a chonffyrmasiwn. Yn ei adroddiad, gwneir y datganiad canlynol:

> "Dylid ystyried bedydd ei hun fel defod derbyn cyflawn . . . Felly, y mae'n bosibl cwrdd â dymuniad cyfreithiol rhai offeiriaid i gyflwyno plant sydd wedi'u bedyddio i fywyd cymunwyr pan fyddant wedi cyrraedd oed addas yn fugeiliol. **Ni chodir unrhyw gwestiwn ynglŷn â'u cymhwyster i dderbyn y cymun**. Cydnabyddir y plant hynny fel aelodau o'r eglwys yn ffurfiol er bod eu perthynas â Christ o natur a ddisgrifir yn anunion-gyrchol, neu o leiaf yn rhannol felly, gan ddibynnu i ba raddau y mae pob unigolyn yn gallu ymateb. Mae'n amlwg bod angen diogelwch priodol wrth ganiatáu derbyn plant i'r Cymun Bendigaid. **Y pwynt hanfodol, fodd bynnag, yw na ddylid gwneud cwblhau'r derbyn drwy gonffyrmasiwn yn amod wrth ystyried a yw plentyn sydd wedi'i fedyddio yn cael derbyn y cymun. Ni chwestiynnir ei gymhwyster i dderbyn y Cymun Bendigaid."** (Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru, 1971; 25-26) (Fy mhwyslais i).

Ffurfiwyd gweithgor gan Fainc yr Esgobion yn dilyn cyfarfod Ebrill 1991 o'r Corff Llywodraethol i ystyried mater derbyn plant i'r Cymun Bendigaid cyn conffyrmasiwn. Sylwadau'r gweithgor am y datganiad oedd fod 'Yr adroddiad hwn yn dal yn gyfraniad arwyddocaol o safbwynt barn Yr Eglwys yng Nghymru ar y Ddefod Derbyn' (Jones, 1992; 7). Wedi ystyried yn fanwl faterion diwinyddol, bugeiliol a litwrgïaidd, daw'r adroddiad hwn i'r casgliad 'Credwn y byddai mynediad i gynllun fyddai'n caniatáu derbyn i'r Cymun Bendigaid cyn conffyrmasiwn yn werthfawr i'r Eglwys yng Nghymru ac yn cyfoethogi'i bywyd' (Jones, 1992; 32).

LLYFRYDDIAETH

Buchanan, C. (gol.) (1985), *Nurturing Children in Communion: Traethodau o ymgynghoriad Boston*, Grove Books.

Buchanan, C. (1990), *Children in Communion: Traethodau o ymgynghoriad Boston*, Grove Books.

Grŵp Ymgynghorol ar Offeiriadaeth ymhlith Plant (1989), *Children and Holy Communion*: Ystyriaeth eciwmenaidd ymhlith eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon, British Council of Churches.

Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru (1971), *Christian Initiation*, Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru.

Holton, D. (1981), *Infant Communion: Then and now*, Grove Books.

Isaac, D. (gol.) (1985), *Communion before Confirmation? Adroddiad gan weithgor bwrdd addysg y Gymdeithasfa Gyffredinol ar Ddefod Derbyn yr Eglwys a Chyfranogi o'r Ewcharist a gadeiriwyd gan Esgob Knaresborough*, (CIO Publishing)

James, H. (1991), *Children and Holy Communion: Rhai ystyriaethau ar y mater o safbwynt yr Eglwys yng Nghymru*, Y Bwrdd Cenhadaeth.

Jones, W.D. (gol.) (1992), *Children and Holy Communion: adroddiad ar gyfer Mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru, Bwrdd Cenhadaeth*.

Jones, W.D. (gol.) (1993), *Children and Holy Communion: amlinelliad o astudiaeth a seiliwyd ar adroddiad i Fainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru*, Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru.

Young, D. (1983), *Welcoming Children to Communion*, Grove Books.

4. A DDYLID GOSTWNG OEDRAN DERBYN PLANT I'R CYMUN BENDIGAID?

A ellir gostwng yr oedran i 7 oed? Onid mympwyol yw'r ffigur hwn? Os yw plant dan 7 oed sydd wedi'u bedyddio yn perthyn yn llawn i'r Eglwys, mae angen inni amddiffyn ein harfer o wrthod y Cymun iddynt.
A ddylem ddileu'r gostyngiad mewn oedran yn llwyr?

Dywedodd Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru (1971) bod bedydd yn ddefod derbyn sagrafennol gyflawn ac nad yw cymundeb yn ddibynnol ar gwblhau'r ddefod drwy weinyddu'r bedydd esgob. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, ystyrir bedydd bellach gan bawb bron fel defod derbyn cyflawn. Mae plant yn aelodau o gymuned cymunwyr yr Eglwys yn rhinwedd eu Bedydd sy'n eu hymgorffori yng Nghorff Crist. Gellid dweud felly nad oes rheswm diwinyddol pam y dylid gwrthod sacrament y Cymun Bendigaid i blant beth bynnag fo'u hoedran. Mewn gwirionedd, mae sawl talaith Anglicanaidd ar hyn o bryd yn derbyn plant bedyddiedig o oedrannau amrywiol i'r cymun: yr Unol Daleithiau, Seland Newydd a rhai esgobaethau yng Nghanada (unrhyw oedran); Awstralia, Canada, Lloegr, Gwlad yr Iâ, De Affrica, Melanesia gyda chynlluniau peilot yng Nghymru (o 4 i 8 oed).[1]

Rhoddir y rhesymau ymarferol a bugeiliol canlynol fel arfer er mwyn gohirio derbyn plant i'r Cymun Bendigaid:

- Y dymuniad bod y derbyn yn achlysur arwyddocaol ym mywyd y plentyn.
- Yr angen am hyfforddiant a dealltwriaeth.
- Yr angen am ymddygiad priodol ynghyd â'r gallu i fawrygu a pharchu'r sacrament.

I ateb y pryderon hyn, gellid edrych yn ôl dros yr hyn sydd wedi digwydd mewn hanes.[2] Yn ystod pedair canrif gyntaf yr Eglwys, cyfranogai plant yn naturiol o'r Cymun. Yn y Testament Newydd nid oes unrhyw dystiolaeth glir a dderbyniai plant y Cymun Bendigaid ai peidio. Fodd bynnag, roeddynt yn bresennol yn yr addoliad, fyddai yn ôl pob tebyg yn cynnwys y Cymun. Y gred oedd bod y plant yn 'fendigaid' pe bai o leiaf un o'u rhieni'n perthyn i gymuned y ffydd. (1 Corinthiaid 7.14).

Nid oes unrhyw reswm felly pam na fyddai'r plant hyn yn derbyn cymun. Erbyn y drydedd ganrif, y norm oedd i blant dderbyn y cymun.

O'r hyn a ysgrifennwyd gan Cyprian o Garthago (ar y Gwrthgiliwr), ymddengys fod plant yn derbyn cymun yma o'u genedigaeth. Manylir yn yr hyn sy'n ysgrifenedig am eglwys Syria yn y bedwaredd ganrif (Cyfansoddiadau Apostolaidd) ar drefn y gynulleidfa o ran derbyn cymundeb: esgobion, offeiriaid, diaconiaid, is-ddiaconiaid, darllenwyr, cantorion a hunanymwadwyr, yna'r diaconesau, gwyryfon a gweddwon; byddai plant yn dod nesaf cyn gweddill y gynulleidfa.

Adeiladodd Sant Awgwstin achos cryf dros y cymun i blant, drwy ganolbwyntio ar Ioan 6.53 ("Oni fwytewch gnawd Mab y Dyn ac yfed ei waed, ni bydd gennych fywyd ynoch"). Fodd bynnag, erbyn yr Oesoedd Canol dechreuodd pobl anesmwytho ynglŷn â chymundeb i 'blant', yn rhannol dan arweiniad geiriau Corinthiaid 1 11.27. (Felly, pwy bynnag fydd yn bwyta'r bara neu'n yfed cwpan yr Arglwydd yn annheilwng, bydd yn

euog o halogi corff a gwaed yr Arglwydd.) Fodd bynnag, parhaodd plant i dderbyn cymun gyda rhai amodau a chyfyngiadau - weithiau rhoddid iddynt y gwin a olchid o'r Cwpan Cymun yn ystod y golchiadau.

Erbyn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, oherwydd parchedigrwydd cynyddol yr Ewcharist, daeth diwinyddwyr i'r casgliad na ddylai plant dderbyn cymundeb hyd nes cyrraedd oed doethineb. *(Pedwerydd Cyngor Lateran 1215)*. (Ar y pryd hefyd, bu gwrthgiliad ar ran lleygwyr o safbwynt derbyn y gwin am yr ystyrid hi'n weithgaredd offeiriadol). *Yn olaf, atgyfnerthodd Cyngor Trent* (1281) y ddeddfwriaeth hon drwy wahardd plant rhag derbyn cymundeb o dan oed doethineb. Er bod yr eglwysi Diwygiedig yn anghytuno ar ddiwinyddiaeth, cytuno wnaethant ar egwyddor gwrthod cymundeb i blant ifainc.

Amddifadwyd plant o'r cymun o'r Diwygiad ymlaen. Cyfnod o amddiffyn y gwirionedd oedd hi i'r Protestaniaid a'r Catholigion fel ei gilydd. Felly y daethpwyd i arddel trefn y Catecismau a'r Conffyrmasiwn cyn y Cymun.

Yn yr ugeinfed ganrif, trwy fabwysiadu dulliau newydd o addoli, Cymundeb Plwyf, Cymundeb Teulu ac Addoliad i bob oed, daeth yn arferol i blant dderbyn bendith wrth yr allor yn ystod Cymundeb. O ganlyniad, dechreuodd cynulleidfaoedd ofyn y cwestiwn – os yw plant yn gallu cael eu bedyddio oni allant dderbyn Cymundeb?

Yn y cyd-destun hwn, codir nifer o gwestiynau y mae angen i'r eglwys fynd i'r afael â hwy yn awr:

- A ddylid gostwng oedran derbyn plant i'r Cymun?
- Ddylai'r oed fod yn ddibynnol ar fympwy?
- A ddylid cymuno plant bach?

Mae pwyntiau dros ac yn erbyn pob un o'r ystyriaethau hyn.

Un safbwynt yw bod angen i blentyn gyrraedd rhyw safon o ddealltwriaeth ddeallusol cyn cael ei dderbyn i'r cymun. Mae angen i'r plentyn:

- Feddu ar y gallu i resymu fel y gall ddysgu am y gwirionedd ysbrydol a'i fabwysiadu.
- Deall pa ymddygiad sy'n dderbyniol yn yr eglwys, hyd yn oed os nad yw bob amser yn cydymffurfio.
- Deall bod gweddi yn ystyrlon.

Yr awgrym felly yw y dylid gostwng oed derbyn ac na ddylai fod yn is na 5 neu 6 oed.

Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd oed deallusrwydd plentyn yn cydfynd â'i ddatblygiad ysbrydol. Gall plant mor ifanc â thair oed werthfawrogi rhyfeddod, arswyd a

pharch. Dengys gwaith diweddar gan D. Hay ac R. Nye fod plant ifainc yn magu ymwybyddiaeth ysbrydol ryfeddol y mae angen ei feithrin wrth iddynt ddatblygu o'u babandod. Hefyd, y mae'n ymddangos bod rhai rhieni yn rhoi rhan o'r arlwy i'w plant ac felly'n answyddogol yn gweinyddu'r cymun iddynt. Mae'r penderfyniad hwn yn rhy bwysig i'w gymryd gan riant.

Mae derbyn plant sydd wedi cyrraedd oedran dealltwriaeth ddeallusol yn rhagdybio bod y Catecism yn dod o flaen y derbyn. Nid yw derbyn y rhai bedyddiedig, beth bynnag fo'u hoed, yn golygu na fydd hyfforddiant a meithriniad Cristnogol yn dilyn. Mae'n ffaith ddiddorol bod angen dealltwriaeth ar blant cyn cael cymundeb lle nad oes angen hynny gyda bedydd. Dywed Peter Reiss, 'Dylai pob Cristion fel rhan o'i ddisgyblaeth fod yn 'ddysgwr'. Pryd ar gyfer y daith yn hytrach na'r dychwelyd adref yw'r Ewcharist. Y wledd nefol yw'r pryd hwnnw.'[3]

Dywedodd Ymgynghoriad Boston (1985):

> Gwrthfynegiad yw derbyn plant i aelodaeth yng nghorff Crist trwy fedydd a gwrthod aelodaeth iddynt yng ngwledd yr Ewcharist sy'n dilyn. O dderbyn yr egwyddor hon, gwrthfynegiad yw honni bod cymundeb yn 'foddion gras' ac eto mynnu bod rhaid i blant ddangos 'arwyddion gras' cyn iddynt allu derbyn 'moddion gras' yr Ewcharist. O dderbyn yr egwyddor hon, gwrthfynegiad yw gosod mwy o rwystrau i'w goresgyn cyn i'r ymgeisydd ddechrau cymuno, boed y rheiny'n ymwneud ag oed neu gyrhaeddiad.[4]

Dyma rai sylwadau gan Eglwys Seland Newydd[5] lle roedd plant bron hanner y plwyfi yn cael cymundeb erbyn canol yr 1980au:

> Y mae'r plwyfi hynny sydd wedi profi cymundeb plant wedi profi twf ysbrydol hefyd o fewn eu cymunedau, gyda phlant ac oedolion yn dysgu wrth ei gilydd
>
> Teimla plant eu bod yn perthyn a'u bod yn rhan o Deulu Duw.

Dywedodd un rhiant:

> Mae mwynhau'r gwasanaeth yn llawn gyda phlant yn ychwanegu at lawenydd y weithred o gymuno ynddi'i hun. Credaf fod derbyn plant i'r cymun yn gynnar yn gweithio'n dda.

Daw'r sylw olaf wrth aelod o'r Eglwys yng Nghymru.

> Mae gweld plentyn yn penlinio o'm blaen wrth reilen yr allor gyda'i ddwylo'n ymestyn allan yn brofiad aruthrol ac ymddarostyngol.

Wrth ystyried cyfyngiadau oedran, rhaid bod yn ofalus. Ceir nifer o bobl yn yr Eglwys heddiw'n cwyno ynglŷn â bedyddio'n ddiwahân ac mae'n bwysig bod yr Eglwys yn gofalu nad yw'n syrthio i'r fagl o gymuno'n ddiwahân. Drwy hyn oll, mae angen cynnal rhyfeddod a pharch at Sacrament yr Ewcharist[6] ac i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu paratoi bob amser cyn bedydd.

Yn olaf, dameg o Toronto a elwir *Peter a Mary'n mynd i nofio*.[7]

> Mae rhieni Peter a Mary'n hoff o nofio ac maent wedi mynd â'u plant yn rheolaidd i'r pwll nofio, o'u genedigaeth. Fodd bynnag, nid yw'r plant eto'n cael mynd i'r pwll nac yn cael nofio hyd nes y byddant yn deall ac yn gwybod yn iawn sut i ymddwyn yn briodol. Treuliant sawl blwyddyn mewn ystafelloedd bach yn ymyl y pwll, yn gwrando ar storïau o Lawlyfr Nofwyr ac yn tynnu lluniau nofwyr. Yn anffodus, nid yw'r bobl ymroddedig sy'n eu dysgu byth yn nofio mwyach am eu bod yn rhy brysur gyda'r

plant. Weithiau, mae'r plant yn cael mynd i mewn i'r pwll bach ac ar achlysuron arbennig, cânt fynd i'r pwll gyda'u rhieni ond iddynt beidio â sblasio ac aflonyddu ar bobl eraill. Ar ôl tair blynedd ar ddeg, cânt hyfforddiant dwys, gan ddysgu'r rheolau a chlywed am nofwyr Olympaidd ac edrych ar luniau nofwyr o wledydd eraill yn sefyll wrth y pwll. O'r diwedd, maent yn gorffen yn yr ysgol nofio a chânt nofio gydag oedolion, ond erbyn hyn maent wedi colli diddordeb mewn nofio ac mae'n well ganddynt eistedd gartref yn gwylio'r teledu. *(Gweler McKelvey H. Children at the Table am y fersiwn lawn.)*

NODIADAU

1 McKelvey H. *Children at the Table*.
2 Strange W.A. *Children in the Early Church*.
3 Reiss P. *Children and Communion*.
4 Buchanan C. *Nurturing Children in Holy Communion*.
5 Buchanan C. *Nurturing Children in Holy Communion*.
6 Macquarrie J. *A guide to the Sacraments*.
7 McKelvey H. *Children at the Table.*

LLYFRYDDIAETH

Buchanan C. (1985), *Nurturing Children in Holy Communion*. Grove Books.

British Council of Churches Consultative Group on Ministry among Children (1989), *Children and Holy Communion*.

General Synod Board of Education (1985), *The report of General Synod Board of Education Working Party, Chaired by the Bishop of Knaresbourough: Communion before Confirmation?* CIO Publishing.

Hay D. with Nye R. (1998), *The Spirit of the Child*. Fount.

Holeton D. (1987), *Infant Communion-then and now*. Grove Liturgical Study No.27.

Macquarrie J. (1997), *A guide to the Sacraments*. SCM PRESS.

McKelvey H. (1993), *Children at the Table*. The Centre for Parish Development. Church of Ireland

Newman D. (1997), *What we are about to receive - The Holy Spirit in Initiation and Experience.* Grove Books.

Pearce S. and Murrie D. (1997), *Children and Holy Communion.* National Society / Church House Publishing.

Paterson R.M.E. (revised 2001), *The Children's Bread – Children and Holy Communion*.

Pedley B. and Muir J. (1997), *Children in the Church?* National Society / Church House Publishing.

Reiss P. (1998), *Children and Communion*. Cambridge, Grove Books.

Strange W.A. (1996), *Children in the Early Church*. Paternoster Press.

5. CONFFYRMASIWN YN Y DYFODOL ?

Beth am Gonffyrmasiwn yn y dyfodol? A ddylai aros fel y mae, sef defod o ymrwymiad ac arddodiad dwylo gyda gweddi am nerth yr Ysbryd, a hynny ar gyfer oedolion? A ddylid adfer y weddi am yr Ysbryd i ddefod y Bedydd fel y gwnaed yn Eglwysi'r Dwyrain ac yn nefod y Bedydd Cyfamodedig? A fyddem felly'n gweithio tuag at ddefod lle byddai oedolion yn ymrwymo i fod yn ddisgyblion? A yw patrwm yr ymrwymiad i Grist mor amrywiol bellach fel y byddai ymrwymo'n flynyddol i wasanaeth a chenhadaeth (gyda 'chatecwmenawdau' bob hyn a hyn o flynyddoedd efallai) ynghyd ag ymrwymo i fod yn ddisgyblion yn ateb y diben yn well? Beth bynnag yw ein penderfyniad, bydd yn effeithio ar ein darpariaeth litwrgïaidd (fydd o reidrwydd yn aros yn hyblyg am nifer o flynyddoedd eto).

Mae'r cwestiwn hwn yn rhagdybio mai 'defod o ymrwymiad ac arddodiad dwylo gyda gweddi am nerth yr Ysbryd ar gyfer oedolion' yw'r diffiniad o Gonffyrmasiwn, er bod sefyllfa bresennol yr Eglwys yng Nghymru dipyn yn fwy cymhleth na hyn. Mae Catecism yr Eglwys yng Nghymru (Cyfrol. 2 tud. 698) yn disgrifio Conffyrmasiwn fel defod sagrafennol lle 'y gwnawn fynegiant aeddfed o ymrwymiad i Grist a wnaethom yn ein Bedydd a derbyn nerth yr Ysbryd Glân drwy weddi ac arddodiad dwylaw'r esgob.' (Cwestiynau Catecism 56 & 57).

Ystyrir y 'ddefod sagrafennol' hon yn aml fel 'cyflawniad' neu 'ail ran' sacrament y Bedydd (bedydd plant 'drwy ddŵr' a throsglwyddo rhodd yr Ysbryd Glân yn y Conffyrmasiwn – safbwynt a atgyfnerthir drwy'r ymarfer o wrthod y Cymun Bendigaid i blant ac oedolion nad ydynt eto wedi'u conffyrmio). Fodd bynnag, dywedodd adroddiad 1971 Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru fod Defod Derbyn yr Eglwys yn gyflawn yn y Bedydd. Felly, dylid ystyried Bedydd ynddo'i hun yn ddefod derbyn eglwysig cyflawn . . . cynnwys y Bedydd rodd lawn yr Ysbryd Glân. Golyga bedydd y cwbl a olygwyd erioed gan 'fedydd' gan gynnwys 'conffyrmasiwn'. Bedydd yw bedydd dŵr a'r Ysbryd.[1]

Mae deuoliaeth o ran yr hyn a gredwn yw cred ac ymarfer presennol yr Eglwys yng Nghymru ar fater conffyrmasiwn. Gall y ddeuoliaeth hon ddylanwadu ar y modd y bydd conffyrmasiwn yn datblygu yn y man. Ar un llaw, mae'n hymarfer – sy'n seiliedig ar Ll.G.C. 1549 ac ar ddulliau gweithredu'r 19eg ganrif – yn cysylltu'r Cymun Bendigaid â Chonffyrmasiwn. Atgyfnertha hyn y syniad bod conffyrmasiwn yn angenrheidiol ar gyfer 'cyflawni' Defod Derbyn yr Eglwys. Ar y llaw arall, mae gennym ddatganiad pendant bod y Ddefod Derbyn yn gyflawn yn y Bedydd ac na ddylid gwahardd y rhai sydd heb eu conffyrmio rhag derbyn y Cymun Bendigaid. Mae angen eglurder ar y negeseuon diwinyddol cymysg hyn cyn y gellir symud ymlaen.

Wrth edrych ymlaen tuag at ddyfodol Conffyrmasiwn, fodd bynnag, mae angen ystyried cwestiynau anghenion bugeiliol a buddioldeb eglwysigol. Mae plant (ac oedolion) yn elwa o 'ddefodau newid byd', wrth nodi'r camau ar eu taith ysbrydol – ac mae'r ymarfer presennol yn caniatáu hyn ynghyd â chyfle i barhau i feithrin yn y ffydd. (Yr unig berygl yn hyn o beth yw y gall y meithriniad parhaus hwn ddod i ben yn

sydyn ar ôl Conffyrmasiwn yn 11 neu 12 oed, a hynny'n aml cyn i blant ddechrau ystyried o ddifrif gwestiynau ffydd). Mae'r ymarfer presennol o Gonffyrmasiwn gan Esgob hefyd yn galluogi'r rhai a gonffyrmiwyd i weld eu ffydd yng nghyd-destun Eglwys Duw yn ei chyfanrwydd yn hytrach na thrwy gyfyngiadau cul eu cynulleidfa eu hunain. Ar y llaw arall, drwy hyn mae perygl i gysylltiad esgob â'r plwyfi gael ei gyfyngu i gyfarfodydd ag ymgeiswyr conffyrmasiwn a'u teuluoedd.

Gofynnir inni hefyd ystyried y cwestiynau litwrgïaidd sydd ynghlwm wrth ddyfodol Conffyrmasiwn. Yn gyntaf, y posibilrwydd o adfer y weddi am yr Ysbryd i ddefod y Bedydd. Ceir amrywiaeth agwedd yn y testunau Bedydd cynnar ac amhendant yw agwedd testunau diweddarach hefyd (o'r 7fed a'r 11eg ganrif), er bod y Bedydd a'r Conffyrmasiwn wedi'u sefydlu ar wahân erbyn y Diwygiad, gan barhau felly yn yr Eglwys Anglicanaidd wedi'r Diwygiad.[2] Fodd bynnag, yn nhestun diweddaraf y Cymundeb Anglicanaidd – Addoliad Cyhoeddus Eglwys Loegr (*CW*) – ystyrir cyflwyno'r Ysbryd Glân fel rhan o broses taith gydol oes yn y ffydd. (Dywed Gilly Myers yn ei chanllawiau i wasanaethau derbyn yr Addoliad Cyhoeddus (tud. 17) 'y gallai'r farn fod bedydd yn ddefod derbyn cyflawn ymddangos fel pe bai'n dibrisio Conffyrmasiwn a hefyd ei fod i raddau'n nacáu'r elfen o broses yn yr achlysur sagrafennaidd'. Mae gweddi'r Bedydd yn yr Addoliad Cyhoeddus yn gofyn ar ran yr un sydd newydd ei fedyddio 'adnewydder chwi yn feunyddiol drwy eneiniad Ei ysbryd.' (Gwasanaethau Derbyn yr Addoliad Cyhoeddus tud. 40) a'r weddi ar ran yr ymgeiswyr adeg Conffyrmasiwn yw 'cyflawner chwi â dawn yr Ysbryd Glân'. Arddodir dwylo gan adrodd y geiriau 'boed i Dduw adnewyddu ei fywyd ynoch fel y byddo i chwi gyffesu Ei enw o'r dydd hwn hyd byth' (idem.) Tud. 112).

Drwy 'adfer' y weddi am yr Ysbryd i'r bedydd byddem yn cytuno â rhai, er nad y cyfan, o ddefodau'r Eglwys gynnar (gweler nodyn 2). Ond efallai ei bod yn bwysig ymholi'n gyntaf pam ein bod yn defnyddio'r fath weddi o gwbl. Mae cryn ddadlau ynglŷn â'i defnyddio ar sail Ysgrythurol – a'r testun a ddyfynnir yn aml yw Actau 8:14-17, a ddynodwyd gan Irenaeus a Tertullian. Dengys y testun bod yr Apostolion yn arddodi dwylo ar y cadwedig i gyflwyno rhodd yr Ysbryd, er bod tystiolaeth o ddefodau bedydd cynnar yn dangos, fel y gwelwyd, nad dyna fu arfer yr Eglwys gynnar erioed. Wrth ddefnyddio gweddi am yr Ysbryd heddiw, a ydym yn ystyried ei bod yn rhoi 'nerth ar gyfer y daith' (fel yn yr Addoliad Cyhoeddus)? Neu a ydym yn hytrach yn ei hystyried yn weddi sy'n rhoi nerth a hyder i'r Cristion aeddfed wrth iddo wneud ymrwymiad personol o ffydd? A yw'r Ysbryd Glân yn absennol o'r bedydd os yw'r weddi'n cael ei hepgor? Neu ai drwy'r fath weddi yn unig y gwireddir sêl yr Ysbryd Glân – o'i chyferbynnu ag eneinio neu'r weithred o

fedydd dŵr ei hun yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân? (gweler adroddiad Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru ar Ddefod Derbyn yr Eglwys, tud.22 'Defod Derbyn yr Eglwys yw rhodd yr Ysbryd. Gweler hefyd adroddiad y WCC *Baptism, Eucharist and Ministry* – tud.6 IVB14 – 'Mae dealltwriaeth Cristnogion ynglŷn â'r lle y ceir yr arwydd am rodd yr Ysbryd yn gwahaniaethu. Cysylltwyd gweithredoedd gwahanol â rhoddi'r Ysbryd. I rai, defod y dwr ei hun ydyw. Cred eraill mai eneinio â'r Ennaint a/neu arddodiad dwylo ydyw . . . i eraill, mae'n golygu pob un o'r tri, gan eu bod yn gweld yr ysbryd yn weithredol drwy'r ddefod.') Pa fodd bynnag y byddwn yn ystyried y weddi am yr Ysbryd, cytunir bod rhodd lawn yr Ysbryd Glân yn cael ei rhoddi yn y bedydd - ond nid yw hyn yn golygu atal gweddi o'r fath o ddefod conffyrmasiwn, ond inni ddeall nad dyma unig faes conffyrmasiwn. (Gweler Oliver Quick 'The Christian Sacraments' tud.183-184: 'Gyda'i gilydd, mae damcaniaeth sy'n datgan bod Conffyrmasiwn yn nodi rhodd gyntaf yr Ysbryd sy'n trigo ynom, ac ymarfer sy'n gosod Conffyrmasiwn rhyw ddwsin o flynyddoedd ar ôl y Bedydd, yn arwain at gasgliadau annerbyniol.')

Edrych ail ran y cwestiwn hwn ar yr angen am ddefod lle bo oedolion yn ymrwymo i fod yn ddisgyblion – boed hynny drwy gonffyrmasiwn neu drwy 'gysegriad blynyddol i ddisgyblaeth, gwasanaeth a chenhadaeth (efallai gyda 'chatecwmenawd' gorfodol i oedolion bob hyn a hyn)'. Mae ffurf ar gysegriad blynyddol yn bodoli eisioes yn y ddarpariaeth ar gyfer adnewyddu addunedau bedydd adeg Gwylnos y Pasg. Gallai'r weithred gyfunol hon o 'ailgysegriad' fod yn fuddiol i'r rhai sydd am adnewyddu eu hymrwymiad i'r ffydd; er efallai na fyddai o fudd i'r rhai fyddai, am y tro, yn awyddus i nodi carreg filltir ar eu taith ysbrydol. Ceir, fodd bynnag, ryw ddarpariaeth yng ngwasanaethau'r Addoliad Cyhoeddus ar gyfer 'cadarnhau ffydd bedydd' (Gwasanaethau Derbyn Addoliad Cyhoeddus, tud.164), felly mae cynsail yn barod ar gyfer defod sy'n cwrdd ag anghenion unigolion arbennig. O ran 'catecwmenawd gorfodol i oedolion' (er nad yw disgybl bedydd, neu'r catecwmen trwy ddiffiniad, wedi'i fedyddio eto), credaf na fyddai system o'r fath yn ymarferol a gallai fod gormod o alw amdano. Er enghraifft, pa sancsiynau ellid eu rhoi ar y rhai fyddai'n gwrthod mynychu? Darpara adroddiad y Comisiwn Dysgeidiaeth rybudd yn hyn o beth: 'Mae parodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb Cristnogol yn bwysicach na gwneud addunedau. Am y rheswm hwn byddem yn dymuno bod unrhyw weithred ffurfiol o ymrwymiad yn opsiynol. Nid oes yr un ohonom yn ffyddlon i Grist am inni wneud addunedau. Yn hytrach, ystyriwn bod addunedau'n gyflynol am ein bod yn parhau'n ffyddlon.' (Tud. 31) Caiff rhai gyrsiau'r Grawys a grwpiau astudio'n ddefnyddiol a phleserus hyd yn oed, ac mae digonedd o ddeunyddiau amrywiol ar gael ar eu cyfer. Nid yw hyn yn golygu y byddai pawb yn croesawu gorfodaeth i fynychu a gwneud cysegriad o ffydd yn ffurfiol ar y diwedd! Mae'r daith i fedydd oedolyn/conffyrmasiwn yn un a wneir o ddifrif ac yn aml wedi sawl blwyddyn o chwilio. Y gobaith yw y bydd yn gychwyn archwiliad pellach o'r ffydd drwy gydol oes. I'r ymgeiswyr, mae hwn yn brofiad na ellir ei ailadrodd - un na fyddant o bosibl am ei ailadrodd hyd yn oed, a'r gobaith yw eu bod wedi symud ymlaen yn eu ffydd ers iddynt gael eu conffyrmio. Bellach, byddai profiad arall fel disgybl bedydd yn anaddas felly. I'r rhai a gonffyrmiwyd yn blant, ac sy'n ystyried bod angen iddynt gael eu meithrin mewn Cristnogaeth sylfaenol fel oedolion, caiff nifer o bobl y cyrsiau *Alpha* neu *Emmaus* yn

ddefnyddiol – neu ymuno â'r ymgeiswyr hŷn ar eu cwrs conffyrmasiwn hyd yn oed, efallai fel noddwyr!

I'r oedolion hynny sydd yn newydd i'r ffydd, dylai bedydd a chonffyrmasiwn fod, mewn unrhyw achos, yn rhan o'r un ddefod. Ond i'r gwrthgilwyr a'r rhai sydd heb eu conffyrmio, gall conffyrmasiwn fel oedolion ddarparu nid yn unig gyfle ar gyfer ymrwymiad aeddfed o ffydd, ond hefyd ras a nerth yr Ysbryd Glân, a roddir drwy arddodi dwylo ac eneinio â'r Ennaint. Mae hon yn ddadl rymus ar gyfer cadw defod conffyrmasiwn - ac, efallai, ar gyfer annog plant i gael eu conffyrmio'n hŷn nag a wneir ar hyn o bryd, h.y. yng nghanol neu ar ddiwedd eu harddegau, wedi iddynt gael y cyfle i ofyn cwestiynau ac archwilio'u ffydd.

Nid yw hyn yn gwadu bod Defod Derbyn yr Eglwys yn gyflawn drwy fedydd, ond yn hytrach, mae'n cyfoethogi bywyd y Cristion sy'n datblygu drwy ddefod o atgyfnerthiad â'r Ysbryd Glân. I bwysleisio natur 'gyflawn' bedydd, gallai defod y bedydd ymgorffori gweddi am yr Ysbryd Glân, heb gau allan y posibilrwydd o ddefnyddio gweddi debyg yn y conffyrmasiwn. Yn hytrach, gallai roi anogaeth fyddai'n adlais o fedydd yr ymgeisydd.

Ac felly, 'beth am gonffyrmasiwn yn y dyfodol?' Yn ddiwinyddol, mae'n glir nad oes yna ddyfodol i gonffyrmasiwn fel ail ran Defod Derbyn yr Eglwys a gychwynnwyd yn y bedydd. Eto, fel ymrwymiad aeddfed o ffydd o fewn y fframwaith arddodi dwylo (ac eneinio â'r Ennaint), mae gan gonffyrmasiwn rôl fugeiliol glir ar gyfer plant hŷn ac oedolion. Ni fyddai hynny'n effeithio'n fawr ar y gofynion litwrgïaidd felly, heblaw'r angen i osgoi unrhyw awgrym bod conffyrmasiwn yn gwneud bedydd yn 'gyflawn'.

Ni ellir yn y traethawd byr hwn wneud cyfiawnder â phrofiad y gorffennol nac ateb gofynion yr Efengyl yn ein cenhedlaeth ni. Ein bedydd yw dechrau ein taith Gristnogol ac mae gras bedydd yn aros gyda ni fel yr ydym yn tyfu ac yn archwilio ein ffydd. Bydd adleisiau bedydd bob amser yn bwysig yn ein bywydau Cristnogol ac yn ein litwrgïau. Ysgrifenna Kenneth Stevenson yn ei lyfr *'The Mystery of Baptism in the Anglican Tradition'* fod 'angen inni ddod ag adnoddau defod y bedydd i mewn i'r Ewcharist ei hun . . . yn anad dim, mae angen diwinyddiaeth ddyfnach arnom ar fedydd." Felly, bydd dyfodol conffyrmasiwn yn chwarae rôl arwyddocaol o ran gwireddu'r adleisiau hyn i'r rhai sydd wedi'u bedyddio.

NODIADAU

1. *Christian Initiation: Adroddiad Comisiwn Dysgeidiaeth yr Eglwys yng Nghymru*, tud. 25
2. Mae'r cyfeiriad cyntaf at weddi am yr Ysbryd yn digwydd yn Hippolytus (*Documents of the baptismal liturgy*, tud.6), gan nad oes unrhyw gyfeiriad at weddi o'r fath yn Justin Martyr na'r Didache. Cynnwys Tertullian a Cyprian y weddi er nad oeddynt yn dadlau dros fedydd plant. Fodd bynnag, yn y testunau Syriaidd (Cyril o Jerusalem a'r Cyfansoddiadau Apostolaidd), defnyddir Eneinio'n unig, heb weddi. Honna Theodore o Mopsuestia mai trwy eneinio y trosglwyddir yr Ysbryd Glân (op. cit. tud. 50). Ar y llaw arall, dywed John Chrysostom mai ' trwy eiriau a llaw'r offeiriad (yng ngweithred y bedydd) y disgyn yr Ysbryd Glân arnoch' (op. cit. tud. 40 – fy nghromfachau i). Mae testunau diweddarach hefyd yn amhendant ar y testun: dywed Isidore o Seville (7fed ganrif) 'Ar ôl bedyddio rhoddir yr Ysbryd Glân drwy'r esgob gyda'r arddodiad dwylo' (idem. tud.111); lle dywed y Llyfr Sacrament Gelasaidd (8fed ganrif) fod y weddi am yr Ysbryd yn cael ei hoffrymu gan yr esgob yn y bedydd (idem tud. 188) a dywed y Liber Ordinum (1052) wrthym fod arddodiad dwylo a'r weddi am yr Ysbryd yn dilyn y bedydd yn

union (idem tud.121). Yn amser y Diwygiad gweinyddwyd conffyrmasiwn ynghyd â gweddi am yr Ysbryd Glân i blant 7 oed. Os oedd yr ymgeisydd wedi cyrraedd yr oed a'r esgob yn bresennol, byddai conffyrmasiwn yn dilyn bedydd. (Defod Caersallog, 1543 idem tud. 248). Parhaodd yr ymarfer hwn yn yr Eglwys Anglicanaidd wedi'r Diwygiad, er iddynt godi'r oed conffyrmio.

LLYFRYDDIAETH

Doctrinal Commission of the Church in Wales 91971), *Christian Initiation*, Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru
World Council of Churches report (1982), *Baptism, Eucharist and Ministry*, gyhoeddwyd gan WCC.
Common Worship: Initiation Services (1998), cyhoeddwyd gan Church House Publishing.
Bradshaw, P. (2001) *Companion to Common Worship*, gyhoeddwyd gan SPCK
Buchanan, C. (1986), *Anglican Confirmation*, gyhoeddwyd gan Grove.
Davies, J.G. (gol.) (1972), *A Dictionary of Liturgy and Worship*, gyhoeddwyd gan SCM.
Greenacre, R. (1965), *The Sacrament of Easter*, gyhoeddwyd gan Faith Press.
Jones, C., Wainwright W., Yarnold E. and Bradshaw P. (gol.) (1992), *The Study of Liturgy*, gyhoeddwyd gan SPCK.
Myers, G. (2000), *Using Common Worship: Christian Initiation*, gyhoeddwyd gan Praxis.
Quick, O.C. (1964), *The Christian Sacraments*, gyhoeddwyd gan Fontana
Reiss, P. (1998) – *Children and Communion*, gyhoeddwyd gan Grove
Stevenson, K. (1998), *The Mystery of Baptism in the Anglican Tradition*, gyhoeddwyd gan Canterbury Press.
Whitaker, E.C., *Documents of the baptismal liturgy*, gyhoeddwyd gan SPCK.

6. LITWRGÏAU AR GYFER DERBYN PLANT A FEDYDDIWYD I GYMUN BENDIGAID

LITWRGI 1

Mae'r litwrgi'n digwydd ar ôl y Tangnefedd yn lle'r Offrwm neu baratoi'r rhoddion. Rydym yn argymell bod y plant sydd i gael eu derbyn i'r Cymun yn cael eu gwahodd i ddod â bara a gwin ac i sefyll gyda'r Llywydd o flaen yr allor.

Darllenydd Mae *Jane* a *John* wedi cael eu bedyddio mewn dŵr. Maen nhw wedi addoli gyda ni. Maen nhw wedi gwylio'r bara'n cael ei dorri a'r gwin yn cael ei rannu. Maen nhw wedi gwrando ar ddarlleniadau o'r beibl. Maen nhw wedi dysgu am weddi. Heddiw fe fyddan nhw'n derbyn Cymun Bendigaid am y tro cyntaf.

Llywydd *Jane* a *John* rydym yn eich croesawu yn enw Iesu i dderbyn Cymun Bendigaid gyda ni

Cynulleidfa **Croesawn chi** *(cymeradwyaeth)*.

Llywydd *Jane* a *John* rydych yn dod â bara i bobl Duw.

Cynulleidfa **Dyma yw'n rhodd**.

Llywydd Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni mae gennym y bara hwn i'w offrymu, a roddwyd gan y ddaear ac a wnaed gan ddwylo dynol.
Fe ddaw i ni yn fara'r bywyd.

Cynulleidfa **Bendigedig fyddo Duw am byth.**

Llywydd Jane a John rydych yn dod â gwin i bobl Duw.

Cynulleidfa **Dyma yw'n rhodd.**

Llywydd Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni mae gennym y gwin hwn i'w offrymu, ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynol.
Fe ddaw yn gwpan ein hiachawdwriaeth.

Cynulleidfa **Bendigedig fyddo Duw am byth.**

LITWRGI 2

Mae'r litwrgi'n digwydd yn union o flaen y Tangnefedd, hynny yw, ar ôl yr eiriolaeth a'r weddi ddyfodiad gostyngedig yn y ddefod ddewisol (Eglwys yng Nghymru 1994).

Llywydd Iesu yw'r wir winwydden a roddodd ei fywyd ar y Groes drosom ni a thros y byd cyfan. Er yw bara'r bywyd a gododd drachefn o'i farwolaeth i roi i ni fywyd tragwyddol. Ar ôl heddiw byddwch yn rhannu gyda phobl Duw wledd fawr ei gariad – y bara a'r gwin sy'n gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist, a roddwyd drosoch chi.

NN., fel pobl Duw, croesawn chwi ar y diwrnod arbennig hwn.

Buom i gyd yn tyfu gyda'n gilydd yn y ffydd Gristnogol; yn dysgu am ein Harglwydd Iesu Grist; ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad; am y ffordd yr ydym yn ei ddilyn bob diwrnod o'n bywyd.

NN., wrth i chwi barhau i garu Duw, dilyn Iesu a byw'r bywyd Cristnogol, ydych chwi'n dymuno derbyn Cymun Bendigaid?

Plant **Ydwyf.**

Llywydd Rieni a Noddwyr, a wnewch chwi gefnogi'r plant hyn wrth iddynt dyfu yn y ffydd Gristnogol a'u hannog, pan fyddant yn barod, i gael bedydd Esgob?

Rhieni a Noddwyr **Gwnawn fe wnawn.**

Llywydd Bobl Duw, mae'r plant hyn yn aelodau gyda ni o Gorff Crist. A wnewch chwi weddïo drostynt, eu cefnogi a'u hannog ar eu pererindod Gristnogol?

Cynulleidfa **Gwnawn fe wnawn.**

Llywydd *NN.*, yn enw Iesu, croesawn chwi heddiw i Sacrament y Cymun Bendigaid.

Cynulleidfa **Croesawn chwi.**

Llywydd Arglwydd Iesu, ein Bugail Da, diolchwn i ti am y bywyd a'r llawenydd y mae *NN.* yn ei roi i'n haddoli. Arweinia a gofala amdanynt hwy a'u teuluoedd wrth iddynt dyfu mewn gwybodaeth a chariad, bywyd a gwasanaeth, a dod â'th fywyd di i'r byd. Boed iddynt adnabod dy bresenoldeb atgyfodedig yn y Sacrament hwn o Gymun Bendigaid ac yn eu bywydau beunyddiol, a chryfha ni oll i'th garu a'th

wasanaethu di, yn awr ac am byth. Amen.

Y Tangnefedd

Llywydd Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.
Tangnefedd yr Arglwydd a fyddo gyda chwi bob amser.

Cynulleidfa **A gyda thithau.**
(Gadewch inni rannu arwydd o heddwch Duw gyda'r naill a'r llall)

Mae'r Cymun yn parhau fel arfer. Mae plant yn dod â'r bara a'r gwin at yr allor yn yr Offrwm.

NODIADAU

1. Bwriedir i'r litwrgi hwn roi'r pwyslais ar groeso, yn hytrach na derbyn, ac i helpu'r plant i ymlacio a theimlo'n hyderus ynglŷn â derbyn Cymun Bendigaid, tra'n sylweddoli difrifoldeb yr achlysur.

2. Mae pob plentyn yn aelod o gymdeithas y ffydd ac fe ddylai cyfraniad pawb – y rhai sy'n derbyn a'r rhai nad ydynt eto'n derbyn y Cymun Bendigaid – gael ei gadarnhau.

3. Dylai Rhieni a Rhieni Bedydd a/neu Noddwyr fod yn cymryd rhan gydol y paratoi, a dylid eu hannog i barhau i gefnogi eu plant wrth i'w ffydd ddatblygu.

4 Mae'n arbennig o bwysig bod y gynulleidfa'n deall beth sy'n digwydd ac yn fodlon cefnogi a gweddïo dros y plant.

5. Fe ddylai'r gwasanaeth ble mae'r plant yn cael eu derbyn i'r Cymun Bendigaid fod yn un addas ar gyfer plant. Pan yn bosibl fe ddylai'r gerddoriaeth fod yn gyfarwydd iddyn nhw, a dylai'r bregeth, y darlleniadau, yr eiriolaeth a gweddi'r cymun, fod o fewn deall eu hoedran nhw.

6. Os dymunir fe ellir gwneud cysylltiad gyda'r Bedydd trwy i'r plant ddal eu canhwyllau bedydd wedi eu goleuo yn ystod y credo.

7. Gellir rhoi tystysgrifau yn ystod yr Tangnefedd neu ar ôl y gwasanaeth. Dylai enwau'r plant gael eu cofnodi yng nghofrestr y plwyf.

8. Er bod y croeso i'r Cymun Bendigaid yn cael ei roi gydag awdurdod yr Esgob, fe ddylai offeiriad y plwyf fod yn llywyddu drosto fel arfer, er mwyn osgoi cymhariaeth gyda'r Bedydd Esgob.

9. Mae'n bosibl i'r gwaith prosiect a wnaed gan y plant yn ystod y paratoi gael ei ddefnyddio a/neu ei arddangos yn ystod y gwasanaeth.

ADNODDAU

AT DDEFNYDD PLANT YN YR EGLWYS
Francis, L. and Slee, N. (1996), *The Picnic: Teddy Horsley goes to Communion*, NCEC.
Sayers, S. (1993) *Jesus is Here, Kevin Mayhew*.
Maddison, P. (1994), *Let's go to Mass, Kevin Mayhew*.

MEITHRINIAD CRISTNOGOL AC ADDOLIAD I BAWB O BOB OED
Bruce, H. and Murrie, D. (2000), *Worship through the Christian Year*, National Society / Church House Publishing.
Francis, L and Drayson, D. (1997), *Bread for all God's Family*, Gracewing.
Francis, L and Drayson, D. (1999), *Learning with the Sunday Gospels (Canllawiau ar gyfer Arweinwyr ynghyd â Thaflenni i fynd adref)*, Mowbray.
Lamont, G. and R. (1997), *Children Aloud*, National Society / Church House Publishing.
Muir J. and Pedley B. (2001), *Come and Join the Celebration*, National Society / Church House Publishing.
Pedley, B and Muir J. (199.7), *Children in the Church*, National Society / Church House Publishing.
Sayers, S. (1999), *Living Stones, Kevin Mayhew*.
Sayers, S. (2001), *Bread and Wine People*, Kevin Mayhew.
Thompson, K. (1995, *The Complete Children's Liturgy Book*, Kevin Mayhew.
Thompson, K, (1999), *Footprints in Faith*, Kevin Mayhew.

PARATOAD AR GYFER Y CYMUN BENDIGAID
Pwyllgor Plant yr Eglwys yng Nghymru (2001), *Blessed be God for Ever: nurturing children in Holy Communion, Yr Eglwys yng Nghymru.*
Pearce, S. and Murrie, D. (1997), *Children and Holy Communion*, National Society/Church House Publishing.
Withers, M. (1999), *Welcome to the Lord's Table (Canllawiau i Arweinyddion ynghyd â Llyfr Gwaith), Barnabas*.
Leichner, J.M. *Called to His Supper. (Canllawiau i Arweinyddion ynghyd â Llyfr Gwaith), Our Sunday Visitor Inc.*
Brady, G. *Going to the Supper of the Lord*, Genesis Publications.
Darcy-Berube, F., Berube J.P. (1992), *Living the Eucharist* Scarborough, Ontario, Novalis.
The Pastoral Formation Team. (1995) Archdiocese of Liverpool. *Moments that Matter, Book Two. Preparing for the Sacrament of the Eucharist*, Rejoice Publications.
Treasure, G. (2001), *One Foot in the Water*. CPAS.